


# ANDREW RT DAVIES MS & JOEL JAMES MS

Summer 2022

Your regional MS team for South Wales Central

## Andrew RT Davies and Joel James express concerns over the plans to increase the number of Senedd Members by over 50%.

**Andrew and Joel have both raised concerns in the Chamber during the Senedd Reform debate about the plans.**

The £100 million estimated cost over each Senedd term is being questioned. Can it be justified in terms of helping the people of Wales?

Labour and Plaid Cymru have argued that the additional members will allow the Government to be better scrutinised. Andrew and Joel have called for a referendum so that the people of Wales can decide.

Joel said, *"I am terribly concerned that these proposals will require £100 million pounds to be found from the existing Welsh Government budget. What implications will that have on our health and education services?"*

Andrew said *"This proposal should be put to the people of Wales in a referendum. It will allow the people of Wales to have their say whether they want our money spent on more politicians or more teachers and nurses."*





## PLATINUM JUBILEE 2022

**This year marked the Platinum Jubilee celebration for Her Majesty The Queen.**

Andrew and Joel were proud to attend events across South Wales Central celebrating the Jubilee, and all that is great about Wales, Britain and the Commonwealth.

Andrew said, *"Her Majesty the Queen has served our country with distinction for seven decades. The Platinum Jubilee celebrations were a fitting tribute to all that she has done for us. It was great to see people from all walks of life get involved, and showcase the very best of our great country."*

Joel commented, *"Her majesty the Queen has led a life of dedicted public service, helping this country navigate good times, as well as bad. I urge everyone to "Plant a tree for the Jubilee" as part of the Queen's Green Canopy project."*


## ANDREW RT **DAVIES MS**

WELSH PARLIAMENT
Cardiff Bay CF99 1SN

CONSTITUENCY OFFICE
Units 2/3 Old Barn
Redland Farm,
Bonvilston CF5 6TU

0300 200 7233

AndrewRT.Davies@senedd.wales
www.andrewrtdavies.co.uk
AndrewRTDaviesMS
AndrewRTDavies
AndrewRT.Davies

## JOEL **JAMES MS**

WELSH PARLIAMENT
Cardiff Bay CF99 1SN

0300 200 7471
Joel.James@senedd.wales
www.joeljames.wales

JoelJamesSWC
JoelJamesSWC
JoelJamesSWC


This has been paid for by the Senedd Commission from Public Funds.

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Senedd Cymru Welsh Parliament

# Out and about across South Wales Central

## ACTION NEEDED TO RESOLVE DANGEROUS CLADDING ISSUES

Andrew has called for immediate action to address the building safety crisis in Wales. He supports calls from local campaigners for a package to help leaseholders affected by defects. Climate Change Minister Julie James was scheduled to make a statement in the Senedd on 14th June but this was withdrawn.

Andrew said, *"Cladding victims have been waiting many years for action. While packages have been brought forward in England, we're still waiting for comparable measures in Wales. I'll continue to work with local campaigners to call for a solution."*





## JOEL JAMES VISITS RHONDDA TUNNEL

Whilst visiting the Rhondda Tunnel Joel was excited to discuss the proposals for reopening the tunnel as a tourist attraction. The tunnel which runs for 2 miles between the Rhondda and Afan valleys could be repurposed as a cycle lane. The tunnel provides a unique opportunity. It would create the longest underground cycle lane in Europe, undoubtedly bringing people to the area.




## ANDREW RT DAVIES VISITS ALCUMUS

Andrew recently enjoyed a visit to Alcumus, the UK's leading provider of technology-led risk management solutions. Alcumus are based in Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, and employ 850 people. He took a tour of the premises and met CEO Alyn Franklin.

Andrew said, *"I'm very grateful to Alcumus for inviting me to visit. It was beneficial to hear about the services they provide to clients, including FTSE 100 companies. They are a key employer in RCT and their ambitious plans to expand will provide further opportunities for people in our area."*



## CONCERNS OVER MENTAL HEALTH SERVICES ACROSS WALES

Joel appeared on Wales Live to discuss the failures by Cwm Taf Morgannwg University Health Board on mental health services. Concerns have been raised regarding the trusts ability to provide appropriate care and support for those with mental health issues.

Joel said *"NHS staff do a tremendous job of taking care of us, but repeated problems come when health boards fail to implement their own procedures and are not held to account by the Welsh Government. A review of the failures needs to take place and I would very much like to see the implementation of a new Mental Health Act to bring current legislation up to 21st Century standards."*



## ANDREW RT DAVIES WELCOMES Y BONT FAEN REOPENING

Andrew has welcomed the news that Y Bont Faen Primary School in Cowbridge has reopened to all pupils. Pupils were moved to Rhoose before Whitsun half term, following serious structural issues with the school's roof. Andrew has raised concerns about the state of the school buildings for several years and demanded urgent action to ensure pupils returned to school.

Andrew said, *"I'm pleased pupils have now returned to Y Bont Faen. But let's be clear: this should not have happened. For years, I raised concerns about the state of the school buildings. Yet nothing was done. It's now time for the school to get the long term investment it needs."*



## SUPPORTING OUR LOCAL FIRE SERVICE

Joel had the pleasure of meeting Huw Jakeway, Chief Fire Officer for South Wales Fire and Rescue. During the visit Joel learnt about the community prevention events, to increase fire awareness, spot potential fire risks and learn evacuation methods.

Joel said, *"It was a huge privilege to meet Huw and his senior team. I have the greatest respect for the work they do and was pleased to hear about the different aspects of their work."*




Haf 2022

# ANDREW RT DAVIES AS a JOEL JAMES AS

Eich tîm AS rhanbarthol ar gyfer Canol De Cymru

## Andrew RT Davies a Joel James yn mynegi pryderon ynglŷn â'r cynlluniau i gynyddu nifer yr Aelodau o'r Senedd o dros 50%.

**Mae Andrew a Joel wedi codi pryderon am y cynlluniau dan sylw adeg dadl Diwygio'r Senedd yn y Siambr.**

Maen nhw'n cwestiynu'r gost posib o £100 miliwn dros bob tymor y Senedd. Oes modd cyfiawnhau hynny o ran helpu pobl Cymru?

Mae Llafur a Phlaid Cymru wedi dadlau y bydd yr aelodau ychwanegol yn caniatáu craffu gwell ar y Llywodraeth. Mae Andrew a Joel wedi galw am refferendwm er mwyn i'r genedl ddweud ei dweud.

Dywedodd Joel, "*Rwy'n poeni'n fawr y bydd angen dod o hyd i £100 miliwn o gyllideb bresennol Llywodraeth Cymru. Beth fydd goblygiadau hynny ar ein gwasanaethau iechyd ac addysg?*"

Dywedodd Andrew "*Dylai'r cynnig yma gael ei gyflwyno i bobl Cymru mewn refferendwm. Bydd yn caniatáu i bobl Cymru gael dweud eu dweud os ydyn nhw am i'n harian ni gael ei wario ar fwy o wleidyddion neu fwy o athrawon a nyrsys.*"





## JIWBILÎ PLATINWM 2022

**Roedd eleni yn nodi dathliad Jiwbilî Platinwm y frenhines.**

Roedd Andrew a Joel yn falch o fynychu digwyddiadau ar draws Canol De Cymru yn dathlu'r Jiwbilî, ac i ddathlu popeth sy'n wych am Gymru, Prydain a'r Gymanwlad.

Meddai Andrew, *"Mae Ei Mawrhydi'r Frenhines wedi gwasanaethu ein gwlad â rhagoriaeth am saith degawd. Roedd dathliadau'r Jiwbilî Platinwm yn deyrnged addas i'r cyfan mae hi wedi'i wneud drosom ni. Roedd hi'n braf gweld pobl o bob cefndir yn cymryd rhan, ac yn arddangos y gorau o'n gwladwriaeth wych."*

Meddai Joel, *"Mae ei Mawrhydi'r Frenhines wedi rhoi ei bywyd i wasanaeth cyhoeddus, gan helpu i lywio Prydain drwy gyfnodau da a drwg fel ei gilydd. Rwy'n annog pawb i "blannu coeden ar gyfer y Jiwbilî" fel rhan o brosiect Canopi Gwyrdd y Frenhines."*


## ANDREW RT DAVIES AS

SENEDD CYMRU
Bae Caerdydd CF99 1SN

SWYDDFA'R ETHOLAETH
Unedau 2/3 Hen Sgubor
Fferm Redland
Tresimwn CF5 6TQ

0300 200 7233

AndrewRT.Davies@senedd.cymru
www.andrewrtdavies.co.uk
AndrewRTDaviesMS
AndrewRTDavies
AndrewRT.Davies

## JOEL JAMES AS

SENEDD CYMRU
Bae Caerdydd CF99 1SN

0300 200 7471
Joel.James@senedd.cymru
www.joeljames.wales

JoelJamesSWC
JoelJamesSWC
JoelJamesSWC


Talwyd am hwn gydag arian cyhoeddus gan Gomisiwn y Senedd.

Welsh Conservatives | Ceidwadwyr Cymreig

Senedd Cymru Welsh Parliament

# Ar hyd a lled Canol De Cymru

## ANGEN GWEITHREDU I DDATRYS PROBLEMAU CLADIN PERYGLUS

Mae Andrew wedi galw am weithredu ar unwaith i fynd i'r afael â'r argyfwng diogelwch adeiladau yng Nghymru. Mae'n cefnogi galwadau gan ymgyrchwyr lleol am becyn i helpu lesddalwyr sydd wedi eu heffeithio gan ddiffygion. Roedd disgwyl i'r Gweinidog Newid Hinsawdd Julie James wneud datganiad yn y Senedd ar 14 Mehefin ond cafodd ei dynnu'n ôl.



Dywedodd Andrew, *"Mae dioddefwyr y sefyllfa cladin wedi bod yn aros flynyddoedd lawer am weithredu. Er bod pecynnau wedi'u cyflwyno yn Lloegr, rydyn ni'n dal i aros am fesurau tebyg yng Nghymru. Byddaf yn parhau i weithio gydag ymgyrchwyr lleol i alw am ateb."*



## PRYDERON AM WASANAETHAU IECHYD MEDDWL LEDLED Y WLAD

Ymddangosodd Joel ar raglen Wales Live i drafod methiannau Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg o safbwynt gwasanaethau iechyd meddwl. Codwyd pryderon ynglŷn â gallu'r ymddiriedolaethau i ddarparu gofal a chefnogaeth addas i'r rhai sydd â phroblemau iechyd meddwl.

Dywedodd Joel fod *"staff y GIG yn gwneud gwaith aruthrol o ofalu amdanom, ond mae problemau ailadroddus yn codi pan mae byrddau iechyd yn methu â rhoi eu gweithdrefnau eu hunain ar waith a ddim yn cael eu dwyn i gyfrif gan Lywodraeth Cymru. Mae angen cynnal adolygiad o'r methiannau a hoffwn weld Deddf Iechyd Meddwl newydd yn cael ei gweithredu i ddod â deddfwriaeth gyfredol i safonau'r unfed ganrif ar hugain."*



## YMWELIAD JOEL JAMES Â THWNNEL CWM RHONDDA

Wrth ymweld â Thwnnel Cwm Rhondda, roedd Joel yn llawn cyffro wrth drafod y cynigion ar gyfer ailagor y twnnel fel atyniad ymhelwyr. Gallai'r twnnel, sy'n mynd am 2 filltir rhwng cymoedd Rhondda ac Afan, gael ail wynt fel lôn feicio. Mae'r twnnel yn cynnig cyfle unigryw. Byddai'n creu'r lôn feicio hiraf danddaearol yn Ewrop a heb os, byddai'n denu pobl i'r ardal.



## ANDREW RT DAVIES YN CROESAWU AILAGOR YSGOL Y BONT FAEN

Mae Andrew wedi croesawu'r newyddion bod Ysgol Gynradd y Bont Faen wedi ailagor i bob disgybl.

Cafodd disgyblion eu symud i'r Rhws cyn hanner tymor Sulgwyn, yn dilyn problemau strwythurol difrifol gyda tho'r ysgol. Mae Andrew wedi codi pryderon am gyflwr adeiladau'r ysgol ers sawl blwyddyn a mynnodd fod camau brys yn cael eu cymryd i sicrhau bod disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.

Meddai Andrew, *"Dwi'n falch bod disgyblion bellach wedi dychwelyd i Ysgol y Bont Faen. Ond gadewch i ni fod yn glir: ddylai hyn erioed fod wedi digwydd. Dwi wedi codi pryderon am gyflwr adeiladau'r ysgol ers blynyddoedd. Ond eto chafodd dim ei wneud. Mae'n hen bryd i'r ysgol gael y buddsoddiad hirdymor sydd ei angen arni."*




## ANDREW RT DAVIES YN YMWELD AG ALCUMUS

Yn ddiweddar, cafodd Andrew'r fraint o ymweld â chwmni Alcumus, prif ddarparwr atebion rheoli risg dan arweiniad technoleg. Mae Alcumus wedi'i leoli yn Nantgarw, Rhondda Cynon Taf, ac yn cyflogi 850 o bobl. Aeth ar daith o amgylch y safle a chwrdd â'r Prif Swyddog Gweithredol Alyn Franklin.

Meddai Andrew, *"Rwy'n ddiolchgar iawn i Alcumus am fy ngwahodd draw. Roedd hi'n fuddiol clywed am eu gwasanaethau i gleientiaid, gan gynnwys cwmnïau FTSE 100. Mae'n gyflogwr allweddol yn Rhondda Cynon Taf a bydd eu cynlluniau uchelgeisiol i ehangu yn cynnig cyfleoedd pellach i bobl ein hardal."*



## CEFNOGI EIN GWASANAETH TÂN LLEOL

Cafodd Joel y pleser o gwrdd â Huw Jakeway, Prif Swyddog Tân Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru. Yn ystod yr ymweliad, dysgodd Joel am y digwyddiadau atal cymunedol er mwyn cynyddu ymwybyddiaeth o dân, sylwi ar risgiau tân posibl a dysgu dulliau gwacáu mewn argyfwng.

Meddai Joel, *"Roedd yn fraint enfawr cael cyfarfod Huw a'i uwch dîm. Mae gen i'r parch mwyaf at eu gwaith ac roeddwn i'n falch o glywed am elfennau gwahanol o'u gwaith."*